# Rhif: 9

| | |
|---|---|
| **Cais Rhif:** | **C16/1575/08/LL** |
| **Dyddiad Cofrestru:** | **05/12/2016** |
| **Math y Cais:** | **Llawn - Cynllunio** |
| **Cymuned:** | **Penrhyndeudraeth** |
| **Ward:** | **Penrhyndeudraeth** |
| **Bwriad:** | **Cais ôl-weithredol i gadw bwrdd gwyddbwyll ar lawnt Pentref Portmeirion** |
| **Lleoliad:** | **The Fountain, Portmeirion, Gwynedd, LL48 6ER** |
| **Crynodeb o'r Argymhelliad:** | **CANIATAU YN DDIAMODOL** |

## 1. Disgrifiad:

1.1 Mae’r cais yn gais ôl-weithredol i gadw bwrdd gwyddbwyll ar lawnt pentref Portmeirion. Mae’r gwaith eisoes wedi ei wneud, sydd yn cynnwys ychydig o waith tyrchu peirianyddol er mwyn gosod y bwrdd, sydd yn cynnwys teils du a gwyn 1.2m wrth 1.2m. Mae’r bwrdd gwyddbwyll yn mesur 9.6m sgwâr ac wedi ei osod yn llyfn gyda’r lawnt.

1.2 Mae’r safle wedi ei leoli o fewn pentref Portmeirion sydd hefyd yn Ardal Cadwraeth. Mae’r safle hefyd wedi ei gynnwys ar y Gofrestr o Dirluniau, Parciau a Gerddi Hanesyddol (gradd II*), ac mae sawl adeilad rhestredig gerllaw. Mae’r safle hefyd o fewn Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol.

## 2. Polisïau Perthnasol:

2.1 Mae Adran 38(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a pharagraff 2.1.2 Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio y dylid penderfynu ceisiadau yn unol â’r Cynllun Datblygu, oni bai bod ystyriaeth faterol cynllunio yn nodi fel arall. Mae ystyriaethau cynllunio yn cynnwys Polisi Cynllunio Cenedlaethol, a’r Cynllun Datblygu Unedol.

2.2 Yn sgil Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 mae'n ofynnol i'r Cyngor ymgymryd â datblygu cynaliadwy yn ogystal â chymryd pob cam rhesymol wrth arfer ei swyddogaethau i gyflawni'r amcanion datblygu cynaliadwy (neu lesiant). Mae'r adroddiad hwn wedi’i baratoi gan ystyried dyletswydd y Cyngor a'r 'egwyddor datblygu cynaliadwy', fel sydd wedi’i ddatgan yn Neddf 2015, ac wrth ffurfio'r argymhelliad mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau. Ystyrir na fyddai unrhyw effaith sylweddol nac annerbyniol ar gyflawni’r amcanion llesiant o ganlyniad i'r argymhelliad arfaethedig.

2.3 **Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd 2009:**

B2 - GWNEUD NEWIDIADAU I ADEILADAU RHESTREDIG NEU ADEILADAU YN EU CWRTILAU - Sicrhau nad yw cynigion yn achosi niwed arwyddocaol i gymeriad pensaernïol neu hanesyddol arbennig Adeiladau Rhestredig.

B3 - DATBLYGIADAU SY’N EFFEITHIO AR OSODIAD ADEILAD RHESTREDIG - Sicrhau nad yw cynigion yn cael effaith ar osodiad adeiladau rhestredig oni bai eu bod yn cydymffurfio â chyfres o feini prawf sydd yn anelu i warchod cymeriad arbennig yr Adeilad Rhestredig a’r amgylchedd lleol.

B4 - DATBLYGIADAU O FEWN NEU SY’N EFFEITHIO AR OSODIAD ARDALOEDD CADWRAETH - Sicrhau nad yw cynigion o fewn neu sy’n effeithio ar osodiad ardaloedd cadwraeth yn cael eu caniatáu oni bai eu bod yn anelu i gynnal neu gyfoethogi cymeriad neu olwg yr ardal gadwraeth a’i gosodiad.

B12 - GWARCHOD TIRWEDDAU, PARCIAU A GERDDI HANESYDDOL - Gwarchod tirweddau, parciau a gerddi ddiddordeb hanesyddol arbennig yng Nghymru os byddant yn achosi niwed arwyddocaol i’w cymeriad, eu hedrychiad neu eu gosodiad.

B22 - DYLUNIAD ADEILADAU - Hyrwyddo dyluniad adeiladau da drwy sicrhau fod cynigion yn cydymffurfio â chyfres o feini prawf sy’n anelu i ddiogelu nodweddion a chymeriad cydnabyddedig y dirwedd a’r amgylchedd lleol.

B23 – MWYNDERAU - Diogelu mwynderau'r gymdogaeth leol drwy sicrhau bod rhaid i gynigion gydymffurfio â chyfres o feini prawf sy'n anelu i warchod nodweddion cydnabyddedig mwynderau'r ardal leol.

B24 - GWNEUD NEWIDIADAU AC YMESTYN ADEILAD O FEWN FFINIAU DATBLYGU, PENTREFI GWLEDIG A CHEFN GWLAD - Sicrhau fod cynigion i wneud newidiadau neu ymestyn adeilad yn cydymffurfio â chyfres o feini prawf sy'n anelu i ddiogelu cymeriad a gwerth mwynderol yr ardal leol.

B25 - DEUNYDDIAU ADEILADU - Gwarchod cymeriad gweledol trwy sicrhau fod yn rhaid i ddeunyddiau adeiladu fod o safon uchel sy'n gweddu i gymeriad ac edrychiad yr ardal leol.

Mae Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn, sydd wrthi'n cael ei baratoi, yn destun Archwiliad Cyhoeddus ar hyn o bryd. Nid yw'n ystyriaeth cynllunio berthnasol ar hyn o bryd ar gyfer gwneud penderfyniadau am geisiadau cynllunio.

2.4 **Polisïau Cenedlaethol:**

Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 9, Tachwedd 2016)
Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio 2016
Cylchlythyr y swyddfa Gymreig 61/96 Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Adeiladau Hanesyddol ac Ardaloedd Cadwraeth

**3. Hanes Cynllunio Perthnasol:**

3.1 Dim hanes cynllunio perthnasol

**4. Ymgynghoriadau:**

| | |
|---|---|
| Cyngor Cymuned/Tref: | Dim gwrthwynebiad |
| Cadw: | Heb eu derbyn |
| Welsh Historic Gardens Trust: | Heb eu derbyn |
| Ymgynghoriad Cyhoeddus: | Rhoddwyd rhybudd ar y safle a gwybyddwyd trigolion cyfagos. Mae'r cyfnod hysbysebu wedi dod i ben a derbyniwyd nifer o wrthwynebiadau ar sail cynllunio:<br>• Dyluniad y bwrdd gwyddbwyll allan o gymeriad â'r ardal<br>• Allan o gymeriad gyda'r ardal a'r adeiladau rhestredig<br>• Deunydd y teils yn annerbyniol<br><br>Derbyniwyd sawl gwrthwynebiad am resymau nad oedd yn faterion cynllunio yn ymwneud a'r rhaglen teledu "The Prisoner".<br><br>Derbyniwyd hefyd sawl gohebiaeth yn cefnogi'r cais. |

## 5. Asesiad o'r ystyriaethau cynllunio perthnasol:

### Egwyddor y datblygiad

5.1 Mae'r cais yn gais ôl-weithredol i gadw bwrdd gwyddbwyll ar lawnt pentref Portmeirion. Mae cyfiawnhad wedi ei gyflwyno dros y gwaith sydd yn ymwneud â chyflwr y tir sydd yn troi yn wlyb a mwdlyd yn aml, ac felly penderfynwyd ail-osod y bwrdd gwyddbwyll ar yr union safle ble roedd yr un hanesyddol yn y gorffennol, sydd hefyd yn cyd-fynd a gwneuthuriad a dyluniad lloriau eraill o fewn y safle, ac felly ystyrir bod y bwriad yn dderbyniol mewn egwyddor.

### Mwynderau gweledol

5.2 Mae'r safle wedi ei leoli yng nghanol Pentref Portmeirion, sydd yn Ardal Cadwraeth yn ogystal â Pharc a Gardd Hanesyddol sydd hefyd gyferbyn a sawl adeilad rhestredig. Mae'r datblygiad wedi ei selio ar fwrdd gwyddbwyll hanesyddol a oedd ar y safle yn y gorffennol, o ran maint, lleoliad a dyluniad. Ni ystyrir bod y datblygiad yn cael unrhyw effaith andwyol ar fwynderau'r ardal o ran ei leoliad na'i ddyluniad. Mae rhannau eraill o fewn y safle gyda lloriau teils du a gwyn tebyg, ac felly nid yw'r datblygiad yn gwbl estron i'r ardal. Mae hefyd yn fath o ddatblygiad y gall ei dynnu oddi-ar y safle ac adfer y lawnt heb wneud difrod parhaol i'r safle. Ystyrir felly ei fod yn cydymffurfio a gofynion polisïau B4, B12, B22, B23, B24 a B25 CDUG.

### Effaith y datblygiad ar osodiad a chymeriad yr Adeilad Rhestredig

5.3 Y brif ystyriaeth gyda'r cais hwn yw natur a dyluniad y datblygiad a'i effaith ar y safle yn ei gyfanrwydd. Mae'r rhan yma o'r lawnt wedi ei leoli yng nghanol y pentref, gyda sawl adeilad rhestredig gerllaw. Ni ystyrir y byddai'r bwriad yn amharu ar osodiad yr adeiladau rhestredig cyfagos gan ei fod wedi ei osod i mewn i'r lawnt ac nad yw'n tynnu oddi-wrth gymeriad yr adeiladau rhestredig gerllaw'r safle oherwydd natur yr ardal a'r defnydd tir. Ni ystyrir y byddai caniatáu y cais yn achosi niwed arwyddocaol i gymeriad pensaernïol neu hanesyddol yr adeiladau rhestredig na'r Ardal Gadwraeth. Ystyrir felly bod y bwriad yn cydymffurfio a Pholisïau B2, B3 a B4 o'r CDUG.

### Yr ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus

5.4 Derbynnir sawl gwrthwynebiad i'r bwriad yn datgan nad yw'r datblygiad yn addas nac yn gweddu i'r safle. Eglurwyd uchod fod tystiolaeth hanesyddol yn cefnogi'r bwriad, a hefyd o ran y dyluniad a'r deunydd sydd eisoes wedi lleoli mewn rhannu arall o'r safle. Ystyrir fod y gwrthwynebiadau wedi derbyn ystyriaeth lawn o fewn yr asesiad uchod. Derbynnir hefyd sawl gwrthwynebiad ar sail y rhaglen teledu "The Prisoner" a'r ffaith mai rhan o'r rhaglen oedd y bwrdd gwyddbwyll ac felly nid oes cyfiawnhad drosto. Nid materion cynllunio yw'r gwrthwynebiadau yma ac felly nid yw yn ystyriaeth cynllunio materol wrth ystyried y cais hwn.

## 6. Casgliadau:

6.1 Ar sail yr asesiad uchod ni ystyrir fod y bwriad yn groes i ofynion y polisïau lleol a chenedlaethol perthnasol a'i fod yn addas i'w ganiatáu yn ddiamodol.

## 7. Argymhelliad:

7.1 Caniatáu